2wish CYMRU

# Parti Nutcracker
## Gogledd Cymru

WORTHINGTON & JONES LTD

Green Knight CARAVAN & LODGE PROTECTION

Active CCTV FIT FOR THE FUTURE

Butterworth Spengler

TSM ELECTRICAL SERVICES NW

DAVE'S ELECTRICAL PAT TESTING SERVICES

# Neges gan Rhian

Croeso i ddigwyddiad Nutcracker arall gwych.

Diolch i bob un ohonoch am gefnogi 2wish Cymru a'n teuluoedd sy'n galaru yma yn y gogledd. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael yr un cymorth pan fyddant yn colli eu plentyn yn sydyn. Drwy ddod ynghyd heno, gallwn godi arian i'n sefydliad arbennig, ond gallwn hefyd godi ymwybyddiaeth ohono.

Mae'r Nadolig yn gyfnod anodd o'r flwyddyn i lawer, yn enwedig y rhai hynny sy'n gweld eisiau anwyliaid. Pwrpas heno yw dod at ein gilydd i ddangos cefnogaeth a rhoi gobaith i'r rhai hynny sydd o bosibl yn ei chael hi'n anodd.
Mwynhewch eich noson a chofiwch bod eich cymorth yn werthfawr iawn.

Rhian Mannings MBE, Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd 2wish



# Trefn y Noson

**6pm - Drysau'n agor, diodydd croeso ac adloniant gan y gantores Sarah Price**

**7pm - Gwesteion i eistedd**

**Cyflwyniad a chroeso gan Chloé Waggett**
**'Ein Helusen' gan Rhian Mannings MBE, Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd 2wish**
**Tracie Cooper-Probyn yn rhannu stori Morgan**
**Million Lights - Remembering Our Stars**

**Gweini'r prif gwrs**
**Gêm Gynulleidfaol**
**Gweini'r pwdin**

**Raffl a gwobrau amlen**
**Diolch gan Laura Ogden, Cydlynydd Codi Arian Gogledd Cymru**

**10pm - Siawns am ddawns! - gyda Co. Creative a Sarah Price.**

**12am - Gadael**

# Yn ymuno â ni heno

## Chloé Waggett



Cwmni celfyddydau perfformio yng Ngogledd Cymru yw Co. Creative a sefydlwyd gan yr amryddawn Chloé Waggett yn 2021. Nod Chloé yw dod ag unigolion creadigol at ei gilydd a bywiogi Gogledd Cymru ag egni nwyfus perfformio a'r celfyddydau. Ar ôl y gwaith arbennig a wnaeth y llynedd, mae'n bleser gennym groesawu Chloé yn ôl atom unwaith eto. Diolch i'w hasbri, ei brwdfrydedd a'i chreadigrwydd, roedd digwyddiad y llynedd yn un bythgofiadwy, ac rydym wrth ein bodd yn rhoi'r cyfle iddi rannu'r hud hwnnw unwaith eto.





Bydd ambell syrpréis hefyd...

## Sarah Price



Mae'n bleser gennym groesawu Sarah Price yn ôl i'r Nutcracker unwaith eto eleni! Mae Sarah yn prysur ennill ei phlwyf ledled y DU ac mae ganddi'r gallu i gyfareddu cynulleidfaoedd â'i dawn lleisiol eithriadol, ei phresenoldeb disglair ar y llwyfan, a'i chysylltiad gwirioneddol â'r gerddoriaeth. Mae ei phersonoliaeth gynnes wedi cael cydnabyddiaeth haeddiannol ledled Gogledd Cymru a thu hwnt. Ar ôl ei pherfformiad cofiadwy y llynedd, rydym yn aros yn eiddgar i'w gweld ar y llwyfan unwaith eto - mae ei pherfformiad yn siŵr o wneud i chi fod eisiau dawnsio!

# Tîm ac Ystadegau Gogledd Cymru

Ers 2016, yng Ngogledd Cymru, mae....

**208**

o fywydau ifanc wedi cael eu colli'n annisgwyl

**960**

o unigolion wedi cael cymorth

**Pan fydd teulu'n colli plentyn neu oedolyn ifanc, mae'r effeithiau'n ddinistriol i bawb a oedd yn eu hadnabod ac yn eu caru.**
**Ein nod yw sicrhau bod pawb y mae marwolaeth annisgwyl a thrawmatig plentyn neu oedolyn ifanc 25 oed neu iau yn effeithio arnynt yng Nghymru yn cael y cymorth profedigaeth y maent yn ei haeddu.**



Laura Ogden
Cydlynydd Codi Arian



Angela Nicklin
Cydlynydd Cymorth Uniongyrchol



Dawn Rogers
Cydlynydd Cymorth Cwnsela ac Allgymorth



Meurig Jones
Cydlynydd Cymorth Uniongyrchol

# Gwneud Gwahaniaeth

sganiwch i roi

## Sut mae eich rhodd yn helpu


Fel sefydliad hunanariannu i raddau helaeth, rydym yn dibynnu ar haelioni pobl eraill i ddarparu ein gwasanaethau cymorth. Rydym yn darparu nifer o wasanaethau cwnsela gwahanol, y caiff pob un ohonynt ei ariannu gan eich rhoddion caredig. Mae pob ceiniog a roddir yn gwneud gwahaniaeth i'r rhai hynny y mae marwolaeth sydyn plentyn neu berson ifanc wedi effeithio arnynt.



**£5** Bydd cost 2 gwpanaid o goffi mewn 'Bore Coffi' gyda thîm cymorth 2wish.



**£15** yn rhoi cysur i blentyn sydd wedi colli brawd neu chwaer drwy roi tegan meddal 'Gorgeous George' iddo.



**£40** Bydd £40 yn talu cost blwch atgofion i deulu sy'n galaru.

**£1500** yn ariannu'r broses gyfan o adnewyddu ystafell brofedigaeth, gan gynnig gofod diogel i unigolion sy'n galaru.

Registered with FUNDRAISING REGULATOR



# Million Lights

Ysgrifennwyd gan Amy Wadge

Perfformiwyd gan Amy Wadge a Michael Ball

Ar gael i'w lawrlwytho nawr

www.2wish.org.uk/shop

Registered Charity Number 1168140

# Stori Chloe



Ar 20 Rhagfyr 2023, newidiodd ein bywydau am byth pan gawsom wybod bod Chloe wedi marw mewn damwain yn y gwaith, a hithau ond yn 18 oed. Roedd Chloe yn saer hynod ddawnus a oedd wedi ennill gwobr aur yng nghystadleuaeth sgiliau Cymru ac wedi cael ei dewis i gystadlu yn SkillBuild UK yn Milton Keyes. Yn ogystal â'i gwaith fel saer dawnus, roedd hefyd yn fenyw ifanc weithgar iawn ac roedd ganddi sawl angerdd a diddordeb. Roedd yn awyrblymiwr dawnus iawn, ac yn arfer ei chrefft yn Tilstock, Amwythig. Fel anrheg ar ei phen-blwydd yn 16 oed, es i â Chloe i gael profiad awyrblymio tandem. Roedd hi wrth ei bodd ac yn awyddus i barhau â'r profiad, gan ennill gwobr myfyriwr y flwyddyn am ei chyflawniadau yn awyrblymio. Fel rhieni, aethom ar sawl taith i Tilstock ac yn ôl i gefnogi Chloe a'i breuddwydion awyrblymio.

Roedd hefyd wrth ei bodd yn y dŵr, boed hynny'n syrffio, plymio heb raffau, hwylfyrddio, neidio oddi ar glogwyni, padlfyrddio neu'n nofio, roedd yn caru'r môr. Roedd ei hangerdd dros gadw'r moroedd yn lân yn amlwg, ac arferai ddod yn ôl o'r môr â bag yn llawn sbwriel, yr oedd wedi'i gasglu o wely'r môr.

Ar ben hyn oll roedd ganddi felt brown mewn Karate ac roedd wrth ei bodd yn addysgu'r rhai bach ochr yn ochr â'i Sensai. Roedd Chloe hefyd yn chwaraewr rygbi brwd, yn chwarae i Mo Stars ar Ynys Môn a chafodd ei dewis i chwarae fel un o olwyr Rygbi Gogledd Cymru. Roedd rygbi yn ffordd wych iddi gwrdd â ffrindiau oedd â'r un cymhelliant ac angerdd â hi ar gyfer chwaraeon ac a oedd hefyd yn hoffi mwynhau eu hunain fel hi!

Mae gennym lawer o atgofion melys ond un sydd bob amser yn dod i'r cof yn ddiweddar ac y mae pawb bob amser yn sôn amdano oedd parti pen-blwydd Chloe yn 18 oed a gynhaliwyd yn y tŷ. Roedd Chloe am iddo fod yn gofiadwy ac mae'n rhaid dweud, dyna ydoedd! Gwnaethom chwarae amrywiaeth o gemau yfed, gwisgo gwisg ffansi, chwarae gemau parti yn yr ardd, Jenga enfawr a Cornhole. Roedd Chloe wrth ei bodd â chacen lindys, felly gwnaethom benderfynu gwneud un anferth (gan fod cymaint o bobl yn dod i'r parti) a oedd yn ymestyn o un pen o'n bwrdd bwyta 10 troedfedd i'r llall, gyda 18 o ganhwyllau arni. Roedd yn ddiwrnod hyfryd, a byddwn yn ei drysori am byth.

Mae Chloe wedi gadael bwlch enfawr yn ein bywydau, na chaiff byth ei lenwi. Rydym yn dal i ddisgwyl iddi gerdded i mewn drwy'r drws ond yn gwybod na fydd hynny'n digwydd. Rwy'n dal i feio fy hun am yr hyn a ddigwyddodd. Mae cwnsela wedi helpu rhywfaint ond fel rhiant rydych yn beio eich hun drwy'r amser a dydw i ddim yn meddwl y bydd hynny byth yn newid. Mae'r gefnogaeth gan fy nheulu a'm ffrindiau wedi bod yn help mawr. Dydw i ddim wedi bod ofn siarad pan fydda i'n teimlo'n isel neu'n ei chael hi'n anodd. Rwy'n lwcus iawn o gael pobl mor ofalgar o'm cwmpas.

Un peth roeddwn am ei wneud oedd gwasgaru rhywfaint o lwch Chloe yn yr awyr gan fod pawb yn gwybod ei bod wrth ei bodd yn yr awyr, yn rhydd. Fel teulu, gwnaethom gysylltu â theulu awyrblymio Tilstock ac roeddent yn llwyr gefnogol o'r hyn roedden ni am ei wneud. Roedd yn ddiwrnod emosiynol iawn ond roedd hefyd yn arbennig gan fod teulu a ffrindiau yno i'n cefnogi. Wrth fynd i mewn i'r awyren, doeddwn i ddim yn nerfus gan fy mod i'n gwybod bod Chloe yno gyda mi, ac roeddwn i'n gwybod fy mod yn gwneud y peth iawn yn gwasgaru rhywfaint o'i llwch allan o'r awyren, ei phrofiad awyrblymio olaf dros y parth gollwng.

Gwnaeth hanes sefydlu 2wish gryn argraff arna i a phenderfynais roi rhywbeth yn ôl gan fod y sefydliad wedi bod o gymorth mawr i ni fel teulu. Gobeithio y bydd yr arian a godwyd yn rhoi'r un cymorth â gawsom ni i deulu arall i'w helpu i ymdopi a symud ymlaen.

Hoffwn ddiolch i 2wish am ei gymorth, mae wedi bod mewn cyswllt cyson yn cynnig therapi tylino a chwnsela, yn ogystal â sgyrsiau rheolaidd â chynrychiolwyr 2wish a'n cwnselwyr. Mae gwybod bod cymorth ar gael yn help mawr, ac er na ddaw â Chloe yn ôl, mae'n ein helpu i ddod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd.

Un peth sydd wedi ein helpu i ddelio â'r hyn sydd wedi digwydd oedd y penderfyniad a wnaed gen i a Lewis (ffrind gorau Chloe) i ddechrau tudalen Instagram o'r enw @chloelogotravels. Un peth roedd Chloe am ei wneud oedd teithio'r byd, ond yn anffodus ni chafodd y cyfle. Cynlluniwyd logo Chloe gan Fearne, ei chwaer fawr. Mae'r logo yn dangos ffenestri ei bywyd o'r awyrblymio i'r plymio heb raffau, hwylfyrddio, karate a rygbi. Rydym wedi rhoi'r logo hwn ar sticeri, bathodynnau, llechi, hwdis, crysau-t, casys ffôn a hyd yn oedd jibbitz ar gyfer crocs. O ganlyniad, gall pobl fynd ag atgof o Chloe i bob cwr o'r byd a phob tro y byddant yn gweld rhywle hardd, gallant dynnu llun gyda logo Chloe, gan feddwl am Chloe a chymaint y byddai wedi mwynhau'r lleoliad hwnnw. Fel teulu, rydym wrth ein boddau'n gweld pobl yn teithio'r byd ac yn meddwl am Chloe a'u cariad a'u cefnogaeth tuag atom fel teulu. Os hoffech gael sticer logo neu ddelwedd ar gyfer eich ffôn, dilynwch ni ar Instagram @chloelogotravels #chloelogotravels. Mae logo Chloe yn helpu i gadw ei hatgof yn fyw.
Ysgrifennwyd gan Alastair Bidwell - tad Chloe.

Diolch o galon i'r teulu Bidwell am bopeth y maen nhw wedi'i wneud i godi arian ar gyfer 2wish Cymru. Codwyd swm anferth o £3,580.26 a gallai hyn ariannu 89 o flychau atgofion i'r rhai hynny sy'n cael profedigaeth annisgwyl neu hyd yn oed ariannu'r broses o adnewyddu 2 ystafell i deuluoedd mewn ysbytai. Mae gan Laura, ein swyddog codi arian yn y gogledd lechen logo Chloe nawr a bydd yn mynd ag ef ar hyd a lled Gogledd Cymru fel rhan o'i gwaith.







# Our Headline Sponsor
# Worthington & Jones

WORTHINGTON & JONES LTD

Cwmni cyfanwerthu trydanol teuluol annibynnol yw Worthington & Jones sy'n gwasanaethu Gogledd Cymru a Swydd Amwythig, gan weithio gyda chwsmeriaid masnachol a domestig. Mae ganddo bedair cangen a thros 60 mlynedd o arbenigedd yn y diwydiant, ac mae wedi ennill enw da yn y sector cyfanwerthu trydanol. Mae'r cyfarwyddwr, Lauren Powell wedi bod yn allweddol wrth feithrin y brand hwn yr ymddiriedir ynddo, gan ddangos yr un ymrwymiad ac angerdd wrth gefnogi 2wish.

Mae wedi bod yn bleser gan Worthington & Jones enwi 2wish Cymru fel elusen y flwyddyn y cwmni ers mis Mai 2023, achos sy'n agos iawn at galon Lauren. “Dros y blynyddoedd, rwyf wedi adnabod llawer o bobl sydd wedi colli oedolion ifanc o dan amgylchiadau trasig a fyddai wedi cael budd mawr o'r cymorth a gynigir gan 2wish. Nid oes elusen arall debyg iddi, ac rwy'n credu'n gryf yn ei hethos a'r gwaith anhygoel y mae'n ei wneud” dywedodd Lauren.

Fel rhan o'i ymdrech i gefnogi 2wish, mae Worthington & Jones wedi cymryd rhan mewn sawl digwyddiad codi arian ac mae wedi mynd gam ymhellach drwy gynnwys logo 2wish ar wisgoedd staff yn ei bedair cangen, gan sicrhau bod ei gefnogaeth i'w gweld yn glir bob dydd. Cynhaliodd achlysur hefyd i'n croesawu yn ôl ar ôl ein taith gerdded 5km yn y gogledd, yn ogystal â noddi'r Nutcracker y llynedd ac unwaith eto eleni. Ar ben hyn oll, wynebodd Lauren ei hun her eithriadol er budd 2wish – gan awyrblymio a chodi swm anhygoel o £2,064, a oedd yn gymorth mawr i gefnogi teuluoedd sy'n galaru. Mae'r cwmni hefyd wedi cefnogi ein Hapêl Seren drwy osod coeden â'r sêr ar ei gownter yn ystod mis Tachwedd/Rhagfyr 2024.

Gan fyfyrio ar ei hymrwymiad i'r achos, dywedodd Lauren, “Mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi 2wish a'r teuluoedd sy'n wynebu colled enbyd. Yn Worthington & Jones, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth y gallwn i helpu i gyflawni eu cenhadaeth.”

Rydym yn eithriadol o ddiolchgar am gefnogaeth gyson Lauren a'r holl dîm yn Worthington & Jones, ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n gilydd drwy gydol y flwyddyn.







# Noddwyr Eraill

Yn TSM Electrical Services NW, rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n cleientiaid ar y cyfraddau mwyaf cystadleuol. Fel trydanwyr hynod gymwys sydd ag yswiriant llawn a chofrestriad NAPIT, rydym yn gwasanaethu'r sector domestig yn bennaf. Rydym yn ymgymryd ag amrywiaeth gynhwysfawr o dasgau trydanol domestig a masnachol. Mae'r holl dasgau a gyflawnir gennym yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Gwifro diweddaraf. Os ydych yn chwilio am drydanwr a all warantu gwaith o ansawdd am gost resymol, a chwmni sy'n cyflawni ei ymrwymiadau'n brydlon, mae croeso i chi gysylltu. Hoffem ddiolch i TMS am gefnogi 2wish a'n digwyddiad yn y gogledd am yr ail flwyddyn.

Dechreuodd Dave ei gwmni gwasanaethu PAT yn 2006 ar ôl colli ei swydd gyda JCB. Mae gan Dave enw da iawn ac mae ganddo gontract â chyngor Wrecsam yn gweithio yn holl adeiladau ac ysgolion y cyngor ynghyd â phrosiectau eraill gan gynnwys ffatrïoedd ac mae'n cydweithio'n agos â landlordiaid. Mae Dave yn adnabyddus yng nghymuned Wrecsam ac rydym yn ddiolchgar iawn ei fod wedi penderfynu cefnogi ein digwyddiad Nutcracker am ail flwyddyn.

Mae gan Active CCTV & Surveillance Ltd, sydd wedi'i leoli yn y gogledd, fwy na 23 o flynyddoedd o brofiad o ddarparu gwasanaethau proffesiynol i ddylunio, cyflenwi a gosod systemau teledu cylch cyfyng. Rydym yn arbenigo mewn systemau a gosodiadau teledu cylch cyfyng masnachol, gan helpu busnesau i ddatrys eu heriau diogelwch a diogelu eu hasedau. Mae gan ein tîm ymroddedig ddegawdau o brofiad sydd o fudd i bob prosiect, gan gynnig datrysiadau dibynadwy sy'n diwallu anghenion unigryw ein cleientiaid. Mae ein hymrwymiad i'r gymuned yn gryf o hyd, rydym yn cydweithio â chyflenwyr lleol, yn cefnogi clybiau lleol ac yn cyflogi'n lleol. Am ddatrysiadau diogelwch datblygedig a dibynadwy, mae Active CCTV yma i'ch cadw chi'n ddiogel.

Yn Green Knight Caravan Services, rydym yn ymrwymedig i ddiogelu eich cartref gwyliau, gan helpu perchnogion carafanau a pharciau i arbed amser, arian a straen. Mae gennym fwy na degawd o brofiad yn y diwydiant, ac rydym yn arbenigo mewn systemau gwrthrewydd ecogyfeillgar a diwenwyn a systemau diogelu dŵr datblygedig wedi'u creu'n arbennig ar gyfer carafanau, cabanau a chartrefi gwyliau. Gallwch ymddiried yn Green Knight am ddatrysiadau dibynadwy a chynaliadwy a fydd yn diogelu eich eiddo drwy gydol y flwyddyn.

Sefydlwyd Butterworth Spengler Insurance yn 1924 ac mae wedi bod yn darparu datrysiadau yswiriant arbenigol ers bron i ganrif. Mae ganddo enw da am wasanaeth personol ac am ei ymrwymiad i ragoriaeth, gan gynnig yswiriant wedi'i deilwra i fusnesau ac unigolion. Mae'n ymrwymedig i gael effaith gadarnhaol, ac mae'n bleser ganddo gyfrannu at 2wish Cymru drwy noddi Nutcracker.

# Digwyddiadau i Ddod











































Sganiwch y cod QR i ymweld â'n gwefan.

## Sut i Gymryd Rhan

Mae sawl ffordd y gallwch gymryd rhan mewn digwyddiad gyda 2wish. O wynebu her a chodi arian, i gyfleoedd i noddi; gallwch ein cefnogi mewn sawl ffordd wahanol.

Os oes gennych ymholiadau am ddigwyddiadau, cysylltwch â'n Cydlynydd Digwyddiadau aimee.harris@2wish.org.uk

Ar gyfer cyfleoedd i noddi, cysylltwch â'n Swyddog Codi Arian Corfforaethol gareth@2wish.org.uk

Neu sganiwch y cod QR i ymweld â'n gwefan.

# Gwobrau Raffl

1. Doughs on Pizza - taleb tecawê gwerth £20
2. Royle Bakes - slab brownie
3. Lucia Elysia Designs - print A4 o'ch dewis
4. Sophie The Girls Club - 1 mis o hyfforddiant ar-lein am ddim
5. Lindsay Groves - taleb gwerth £50 ar gyfer Canolfan Arddio Jackson's
6. Doodle Bee - print Cennin Pedr A4
7. Denise Kemp - pecyn rhodd Sanctuary Spa
8. Lifestyle by Neo - triniaeth wyneb
9. Pen Wiwar - bag cario Yr Wyddfa wedi'i wehyddu o ddeunydd a ailgylchwyd
10. The Content Era - 50% oddi ar becyn cynnwys priodas
11. Nakita Higham - colur wyneb llawn
12. Kay Waggett - potel o gin pinc
13. Newton Hilditch - taleb Lip Blush gwerth £50
14. Aimee Gilar Aesthetics - taleb arian i ffwrdd
15. Vale Street Kitchen - taleb gwerth £20
16. Denise Kemp - pecyn rhodd Bulldog
17. Con Amici - Taleb pizza tecawê
18. Cassie Lewis - Champagne a thaleb am adolygiad ariannol
19. Manorafon Farm - taleb i deulu o 4 i'r Pentref Nadolig a'r Llwybr Goleuadau Hudolus
20. Cruze Hairdressing - taleb gwerth £20

# Gwobrau Raffl Amlenni

Yn ystod y noson byddwn yn gwerthu amlenni am £10 yr un. Ym mhob amlen bydd cyfle i chi ennill crys pêl-droed Cymru neu Wrecsam wedi'i lofnodi. Gallwch brynu cymaint o amlenni ag y dymunwch.









# Neges gan Laura

## Cydlynydd Codi Arian Gogledd Cymru

Diolch yn fawr am ymuno â ni yn ein parti Nutcracker i gefnogi 2wish Cymru. Mae eich presenoldeb a'ch haelioni yn werthfawr iawn i ni, a fyddai heno ddim wedi bod yn bosibl hebddoch chi.

Diolch arbennig i'n prif noddwr, Worthington & Jones, a'n noddwyr eraill gwych – TSM Electrical, Dave’s Electrical PAT Testing Services, Active CCTV, Green Knight a Butterworth Spengler. Mae eich cefnogaeth wedi bod mor werthfawr, ac mae llwyddiant y noson yn brawf o'ch haelioni a'ch ymroddiad.

Rwyf hefyd yn hynod ddiolchgar i'r anhygoel Chloé Waggett, Prif Swyddog Gweithredol Co. Creative Company, ac i'r amryddawn Sarah Price am ein diddanu drwy gydol y noson. Diolch hefyd i'n dau westai cudd, a ychwanegodd at hud y noson.

Wrth i mi fyfyrio ar fy nhaith, ar ôl bod yn y rôl hon ers ychydig dros flwyddyn nawr, rwy'n eithriadol o ddiolchgar. Diolch i'n gwirfoddolwyr anhygoel am bopeth rydych yn ei wneud i 2wish. Eich cymorth, eich angerdd a'ch ymroddiad chi sy'n fy ngalluogi i gyflawni fy rôl. Hoffwn hefyd ddiolch o galon i gymuned Gogledd Cymru a phob un o deuluoedd 2wish. Mae eich cefnogaeth driw a'ch ymdrechion diflino i godi arian dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn werthfawr iawn. Gyda'n gilydd, mae eich ymroddiad a'ch tosturi yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth ac i wneud gwahaniaeth go iawn.

Diolch i dîm 2wish, nid yn unig am ymuno â ni i gefnogi Parti Nutcracker, ond am y gefnogaeth driw rydych chi wedi dangos i mi ac i'ch gilydd bob cam o'r ffordd.

Mae eich ymroddiad a'ch caredigrwydd yn hynod werthfawr, ac rwy'n ddiolchgar iawn i bob un ohonoch.




Os bydd heno yn eich ysbrydoli i godi arian ar gyfer 2wish, mae croeso i chi gysylltu. Byddwn wrth fy modd yn clywed gennych! Gallwch gysylltu â mi drwy e-bost ar laurao@2wish.org.uk

Cofion gorau,

*Laura*


"2wish was established to help families, witnesses and professionals affected by the sudden and often traumatic death of a child or young adult aged 25 years and under."
2wish
Date: 6/3/24
Pay: 2 Wish
One Hundred and Ninety Five Pounds and Fifty Pence
£195.50p
www.2wish.org.uk
2wish
2wish
Mens Mental Health Awareness
2001 - 2023
NEVER ALONE STRONGER TOGETHER
www.2wish.org.uk
2wish
Date: 26/07/24
Pay: 2 Wish
Two Hundred and Forty Five Pound and Forty Two Pence
£245.42p
Olivers Bake Sale
www.2wish.org.uk
2wish
Date: 11/06/24
Pay: 2 Wish
One Thousand Two Hundred and Seventy Five Pounds and Sixty Two Pence
£1275.62p
Holywell Vehicle Show in memory of Cadi and Doug Bedford
www.2wish.org.uk



2wish CYMRU | 2wish SUPPORT FOR THOSE AFFECTED BY SUDDEN DEATH IN YOUNG PEOPLE

**Ground Floor, Unit 7,**
**Magden Park,**
**Llantrisant,**
**Rhondda-Cynon-Taff,**
**CF72 8XT**

**www.2wish.org.uk**

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr
Rhif Elusen 1168140